# Y Pwyllgor Cyllid

## Cofnodion FIN (3)-06-08

**Dyddiad y cyfarfod: Dydd Iau 10 Ebrill 2008**
**Amser y cyfarfod: 10.00am - 12.30pm**
**Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 3**

### Aelodau Cynulliad yn bresennol

Alun Cairns (Cadeirydd), Gorllewin De Cymru
Mohammad Asghar, Dwyrain De Cymru
Angela Burns, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Alun Ffred Jones, Arfon
Ann Jones, Dyffryn Clwyd
Lynne Neagle, Tor-faen
Jenny Randerson, Canol Caerdydd

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

John Grimes, Clerc
Abigail Phillips, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

#### Eitem 2

Derek Walker, Pennaeth Polisi ac Ymgyrchoedd, TUC Cymru
Dave Galligan, Pennaeth Iechyd yng Nghymru, Unsain Cymru

#### Eitem 3

Jon Sibson, Partner, Cangen Cynghori Cyhoeddus-Preifat, PricewaterhouseCoopers
Gronw Percy, Cynghorydd Arbenigol i Ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat
Simon McCann, Cynghorydd Arbenigol i Ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat

#### Eitem 4

Gronw Percy, Cynghorydd Arbenigol i Ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat
Simon McCann, Cynghorydd Arbenigol i Ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat

### Eitem 1: Ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Nodwyd bod Joyce Watson wedi anfon ymddiheuriadau.

### Eitem 2: Ymchwiliad y pwyllgor i bartneriaethau cyhoeddus-preifat: tystiolaeth gan TUC Cymru ac Unsain (10.00 - 11.00)

#### Papur:

FIN(3) 06-08 (p1) tystiolaeth ysgrifenedig TUC Cymru i ymchwiliad y pwyllgor i bartneriaethau cyhoeddus-preifat
FIN(3) 06-08 (p2) tystiolaeth ysgrifenedig Unsain i ymchwiliad y pwyllgor i bartneriaethau cyhoeddus-preifat

2.1 Bu'r pwyllgor yn cymryd tystiolaeth oddi wrth TUC Cymru ac Unsain.

2.2 Cytunodd TUC Cymru i roi nodyn i'r pwyllgor yn rhoi manylion y 'rhagdybiaethau' y cyfeiriwyd atynt yn y dystiolaeth (ar dudalen 3) a oedd yn datgan bod gan y cymharydd sector cyhoeddus ragdybiaethau, yn aml, sy'n ffafrio'r cynllun a ariennir yn breifat.

2.3 Cytunodd TUC Cymru i roi nodyn i'r pwyllgor yn rhoi manylion y dystiolaeth sy'n sail i'r datganiad (ar dudalen 4) fel a ganlyn:

'There is evidence, however, of major problems and service failure following externalisation, particularly in the outsourcing of benefit services.'

2.4 Cytunodd TUC Cymru i roi nodyn i'r pwyllgor i ategu'r datganiad yn y dystiolaeth (tudalen 4 - 'The Experience of Staff') bod staff wedi dioddef yn sgil cael eu trosglwyddo i'r sector preifat.

2.5 Cytunodd Unsain i roi gwybodaeth i'r pwyllgor ar y taliadau ychwanegol, uwchben y contract menter cyllid preifat, a wnaed gan Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg i sicrhau bod y safonau glanhau yn Ysbyty Baglan yn cael eu cynnal a'u cadw ar lefel debyg i'r hyn

a geir mewn ysbytai eraill o fewn yr ymddiriedolaeth.

2.6 Bydd y clerc yn ysgrifennu at Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg i holi ynghylch taliadau ychwanegol a wnaed i Ysbyty Baglan er mwyn cynnal a chadw safonau glanhau.

2.7 Bydd Unsain yn paratoi nodyn i'r pwyllgor yn nodi'r dulliau eraill y dymunir iddynt gael eu hystyried er mwyn cyllido buddsoddiad yn seilwaith y gwasanaethau cyhoeddus.

### Eitem 3: Ymchwiliad y pwyllgor i bartneriaethau cyhoeddus-preifat: enghreifftiau eraill o bartneriaethau cyhoeddus-preifat (11.00 - 11.40)

**Papur:**

FIN(3) 06-08 (p3) enghreifftiau eraill o bartneriaethau cyhoeddus-preifat

3.1 Bu'r pwyllgor yn trafod enghreifftiau eraill o bartneriaethau cyhoeddus-preifat gyda chynrychiolwyr PricewaterhouseCoopers a'r cynghorwyr arbenigol i ymchwiliad y pwyllgor i bartneriaethau cyhoeddus-preifat.

3.2 Cytunodd Jon Sibson i roi nodyn i'r pwyllgor ar yr ymchwil a gyhoeddwyd gan y Trysorlys yn 2006, gan gynnwys y cyfeiriadau a wnaed i brosiectau partneriaethau cyhoeddus-preifat yn ystod y cam gweithredol.

### Eitem 4: Ymchwiliad y pwyllgor i bartneriaethau cyhoeddus-preifat: methodoleg ar gyfer cymharu opsiynau (11.40 - 12.15)

**Papur:**

FIN(3) 06-08 (p4) Ymchwiliad y pwyllgor i bartneriaethau cyhoeddus preifat - methodoleg ar gyfer cymharu opsiynau

4.1 Bu'r pwyllgor yn trafod y methodoleg ar gyfer cymharu opsiynau.

### Eitem 5: Y Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (12.15 - 12.30)

**Papur:**

FIN(3) 06-08 (p5) Adroddiad atodol drafft ar y Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2007

5.1 Bu'r pwyllgor yn trafod y newidiadau i'r adroddiad drafft.

5.2 Cytunodd y pwyllgor i gynnwys y geiriau 'at the outset' ar ôl 'disappointed that' ym mharagraff 4 o'r adroddiad drafft.

5.3 Cytunodd y pwyllgor ar yr adroddiad drafft, fel y'i diwygiwyd.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**